

Dannedd gosod symudadwy*



Beth ydyn nhw?

Mae dannedd gosod symudadwy yn cymryd lle dannedd sydd ar goll. Mae dannedd gosod ‘rhannol’* yn cymryd lle ychydig o ddannedd coll ond mae angen dannedd gosod ‘llawn’ neu ‘gyflawn’* os ydi’r dannedd naturiol i gyd ar goll.

Mae’r dannedd gosod cyflawn gorau wedi cael eu gwneud o acrylig (plastig). Gall dannedd gosod rhannol hefyd fod wedi cael eu gwneud o acrylig i gyd. Fel arall, gallent gynnwys dannedd acrylig ar sylfaen o aloi metal ysgafn: mae’r math yma o ddannedd gosod rhannol yn ddiogelach ac yn llai o swmp, ond hefyd yn ddrutach.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

- Mae’r deintydd yn defnyddio deunydd fel pwti i wneud mowldiau o’ch ceg – gelwir y rhain yn ‘argraffau’*. Mae technegydd deintyddol yn eu defnyddio i wneud modelau i’r dannedd gosod gael eu hadeiladu arno. Weithiau, cymerir ail argraff.
- Mae’r technegydd yn gwneud blociau cŵyr sy’n ffitio’r modelau. Yna, mae’r deintydd yn rhoi’r rhain yn eich ceg i gofnodi safle eich genau mewn perthynas â’i gilydd. Mae’r deintydd yna’n naddu a selio’r blociau cŵyr i ddangos i’r technegydd sut y dylai’ch dannedd frathu efo’i gilydd, a pha siâp a ddylai fod i’r dannedd gosod.
- Mae prawf-ddannedd* gosod yn cael eu gwneud a’u rhoi yn eich ceg. Bydd y deintydd yn gofyn i chi sut maen nhw’n ffitio, sut maen nhw’n teimlo ac yn edrych, cyn gwneud unrhyw newidiadau terfynol.
- Mae’r prawf-ddannedd gosod yna’n cael eu hanfon yn ôl at y technegydd sy’n rhoi eu ffurf derfynol ar y dannedd. Mae’r dannedd gosod yna’n barod i’w defnyddio. Mae’n bosib y bydd eich deintydd am eich gweld chi eto’n weddol fuan er mwyn gweld sut hwyl yr ydych yn ei gael efo’ch dannedd gosod. Os oes unrhyw broblemau, mae’n gallu gwneud newidiadau bychain.

Beth ydi’r manteision?

- Os ydych wedi colli ychydig o ddannedd, gall dannedd gosod wella’r ffordd yr ydych yn edrych, yn brathu, yn cnoi ac yn siarad.
- Maen nhw wedi cael eu gwneud yn bwrpasol i weddu’ch ceg chi ac maen nhw’n gallu cael eu gwneud i edrych mor naturiol ag y bo modd.
- Mae’r dannedd sydd ar ôl yn cael eu diogelu rhag traul a difrod*.
- Gellir gosod dannedd gosod yn eu lle yn syth ar ôl tynnu dannedd fel na fydd neb yn gwybod eich bod wedi cael tynnu dant. Gelwir y rhain yn ddannedd gosod ‘di-oed’.

Ni fydd dannedd gosod fyth yn teimlo fel eich dannedd chi eich hun ac fe all gymryd amser i chi ddod i arfer â nhw. Os nad ydych wedi cael dannedd gosod o’r blaen, mi fydd ar y deintydd eisiau egluro i chi’r anawsterau o safbwynt gwisgo dannedd gosod, yn ogystal â’r manteision, a sut y dylech edrych ar ôl eich dannedd gosod newydd, a’r dannedd sydd gennych ar ôl.

GEIRFA: **argraff(au)** = *impression(s)*; **blociau cŵyr** = *wax blocks*; **dannedd gosod ‘di-oed’** = *‘immediate’ dentures* **dannedd gosod ‘llawn’** neu **‘gyflawn’** = *‘full’ or ‘complete’ dentures*; **dannedd gosod ‘rhannol’** = *‘partial’ dentures*; **dannedd gosod symudadwy** = *removable dentures*; **prawf-ddannedd gosod** = *trial dentures*; **traul a difrod** = *wear and tear*

